CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 15 TACHWEDD 2007 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D H Roberts (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch. H M Davies (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs. Liza Brough

DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 8 HYDREF 2007

2.1 Cytunwyd â'r rhain.

3. MATERION YN CODI

Arolygon Cymunedol

3.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y bu oedi yng nghynigion drafft terfynol Ynys Môn am fod y Comisiwn yn aros am y rhagolwg pum-mlynedd o ffigurau etholwyr ar gyfer y newidiadau ôl-ddilynol oddi wrth Gyngor Sir Ynys Môn. **Cytunwyd** i ddilyn y mater hwn â'r Cyngor. **Cytunwyd** pe na allai Cyngor Sir Ynys Môn ddarparu ffigurau rhagolwg etholiadol, yna dylid ceisio cyngor ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn p'un a fyddai modd mynd ymlaen hebddynt a nodi'r ymateb yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

4. AROLWG O'R FFIN RHWNG SIR POWYS A BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

4.1 Cytunodd y Comisiwn ar yr adroddiad drafft yn ddarostyngedig i fân newidiadau. Adroddodd yr Ysgrifennydd fod Cyngor Sir Powys wedi cynhyrchu gorchymyn o ganlyniad i'w harolwg cymunedol diweddar, a newidiodd y drefn wardiau ar gyfer Tal-y-bont ar Wysg. Byddai angen newid yr adroddiad cynnig drafft er mwyn adlewyrchu'r datblygiad hwn felly. **Cytunwyd** y gellid anfon yr adroddiad nawr at ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn i gael ei sylwadau.

5. AROLWG CYMUNEDOL RHONDDA CYNON TAF – CRYNODEB O GYNRYCHIOLAETHAU

Pont-y-clun / Llanharan / Llantrisant

5.1 Adroddwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cyflwyno cynigion mewn ymateb i'r Adroddiad Cynigion Drafft a oedd yn wahanol i'r cynigion a gyflwynwyd ganddynt ar gam cychwynnol yr arolwg. Yn ogystal â throsglwyddo Ynysddu o Lanharan i gymuned Pont-y-clun fel yr awgrymwyd yn wreiddiol, byddai cynigion newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn trosglwyddo ardal fach ychwanegol i'r gogledd-

ddwyrain o Bant-y-Dderwen, o Lantrisant i Bont-y-clun ond yn cadw llawer o'r ardal i'r dwyrain o Bant-y-Dderwen, gan gynnwys Ysgol y Pant, o fewn ffiniau Llantrisant. Roeddent hefyd yn cynnig newid ychwanegol i'r ffin rhwng Llanharan a Llantrisant i drosglwyddo peth eiddo ar Heol Glanelái o Lanharan i Lantrisant. Adroddwyd bod yr Ysgrifennydd wedi ymweld â'r safle i arolygu ffiniau amgen Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gwelwyd eu bod wedi'u diffinio'n eglur. Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau oddi wrth Gynghorau Cymuned Pont-y-clun a Llanharan, y ddau ohonynt yn cefnogi cynigion drafft y Comisiwn er bod Cyngor Cymuned Llanharan wedi gwrthwynebu'r gostyngiad yn nifer y cynghorwyr ar gyfer Ward Brynna. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn derbyn cynigion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac ni fyddai gostyngiad yn nifer cynghorwyr cymunedol yn Ward Brynna yng Nghymuned Llanharan.

Llanhari (Ward Tyle-garw) / Pont-y-clun (Ward Maes-y-felin)

5.2 Adroddwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cefnogi adroddiad cynigion drafft ar gyfer newidiadau rhwng Cymuned Pont-y-clun a Chymuned Llanhari i drosglwyddo Clos Brenin o Ward Tyle-garw, Llanhari i Ward Maes-y-felin, Pont-y-clun. Nodwyd bod y gynrychiolaeth a wnaed gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun hefyd yn cefnogi cynigion drafft y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r cynigion drafft.

Llanhari (Ward Llanhari) / Pont-y-clun (Ward Maes-y-felin)

5.3 Adroddwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cefnogi cynnig y Comisiwn i drosglwyddo ystad Elms Farm o Bont-y-clun i Lanhari ond byddai'n well ganddo pe bai'r ffin arfaethedig yn cael ei hymestyn i gynnwys ardal fechan o dai yng Nghastell-y-Mwnws a Fferm Llwyna. Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau a wnaed gan Gynghorau Cymuned Llanhari a Phont-y-clun sef bod y ddau gyngor yn cefnogi'r cynnig arfaethedig i drosglwyddo ystad Elms Farm i Lanhari. Fodd bynnag, roedd Cyngor Cymuned Pont-y-clun yn gwrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo Castell-y-Mwnws hefyd o'i gymuned i Lanhari. Nodwyd bod Cyngor Cymuned Pont-y-clun wedi cynnal arolwg ymhlith preswylwyr Castell-y-Mwnws ac o'r rhai hynny a atebodd roeddent yn unfrydol o blaid aros yng Nghymuned Pont-y-clun. **Cytunwyd** i gadw'r newid yn y ffin rhwng Cymunedau Llanhari a Phont-y-clun yn ardal Elms Farm fel y cynigiwyd yng nghynigion drafft y Comisiwn fel ei gynigion terfynol ac ni fyddai Castell-y-Mwnws a Fferm Llwyna yn cael eu cynnwys yn y trosglwyddiad i Gymuned Llanhari.

Hirwaun / Pen-y-waun

5.4 Nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Cymuned Hirwaun ill dau wedi gwrthwynebu newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Hirwaun a Phen-y-waun a'r newid arfaethedig dilynol i'r trefniadau etholiadol cymunedol presennol. Cefnogodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf bryderon Cyngor Cymuned Hirwaun, pe byddai'r newid yn cael ei wneud, na fyddent yn gallu cynnal y lefelau gwasanaeth i'r preswylwyr a ddarperir ar hyn o bryd gan fod Cymuned Pen-y-waun wedi'i chynnwys yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o'r farn hefyd y byddai'r gostyngiad arfaethedig yn nifer y cynghorwyr yn Ward Penderyn yng Nghymuned Hirwaun yn golygu y byddai'n cael ei thangynrychioli. Roedd y Cyngor hefyd yn anghytuno ag awgrym y Comisiwn i symud y trefniadau wardio o Gymuned Hirwaun am ei fod yn ystyried y byddai hyn yn dileu unrhyw warant o gynrychiolaeth i Benderyn ar y cyngor cymuned gan ystyried y byddai'n

fwy tebygol o lawer y byddai'r cynghorwyr yn dod o Hirwaun, gan mai hon yw'r ardal fwy o dipyn yn y Gymuned. **Cytunwyd** na fyddai unrhyw newid yn y ffin rhwng Cymunedau Hirwaun a Phen-y-waun.

6. ADRODDIAD CYLLID – CHWARTER 2 2007 – 08

6.1 Adroddwyd bod tanwario sylweddol yng nghyllideb y Comisiwn ar ddiwedd ail chwarter 2007 – 08 ac yr amcangyfrifwyd y byddai tanwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd y Comisiwn y sefyllfa hon.

7. CYFARFOD CYFFREDINOL AGORED BLYNYDDOL (CCAB)

7.1 Nododd y Comisiwn yr adborth a gafwyd oddi wrth y rhai hynny a fynychodd y CCAB ym Mro Morgannwg ar 8 Hydref 2007. Roedd y Comisiwn yn fodlon ar y barnau a fynegwyd a gobeithiwyd y byddai'r arolygon etholiadol sydd i ddod yn ennyn diddordeb ac o ganlyniad y byddai mwy yn mynychu Cyfarfodydd Cyffredinol Agored Blynyddol yn y dyfodol. Nododd y Comisiwn awgrym oddi wrth un a fynychodd y CCAB sef y gallai astudiaethau achos o arolygon a gyflwynir mewn CCAB yn y dyfodol gynnwys y modd y gwnaeth y Comisiwn ei benderfyniad.

7.2 Nododd y Comisiwn yr awgrym ar gyfer lleoliadau ar gyfer CCAB yn y dyfodol. Ystyriwyd y dylid cynnal y CCAB nesaf yng ngogledd Cymru gan fod y CCAB wedi'i gynnal yn ne Cymru eleni. **Cytunwyd** cynnal y CCAB nesaf yn ardal Conwy.

8. UNRHYW FATER ARALL

8.1 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru gan nodi pryderon y Comisiwn am y cynnydd posibl o ran llwyth gwaith a ddeilliodd o'r newid mewn trefniadau archwilio a ddigwyddodd ar yr un pryd â'r cynnydd mewn llwyth gwaith craidd yn yr Ysgrifenyddiaeth oherwydd yr Arolwg Trefniadau Etholiadol. Byddai'n codi'r mater am raddfa ffioedd Archwilio eto, gan ystyried maint y sefydliad a'r adnoddau a ddefnyddid.

8.2 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ymholi o ran beth fyddai effaith Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 ar waith y Comisiwn.

8.3 Ystyriodd y Comisiwn fod ei benderfyniad i ddarparu gliniadur i'r Dirprwy Gadeirydd wedi bod yn llwyddiannus. **Cytunwyd** y dylid prynu gliniadur arall at ddefnydd y Cadeirydd a'i holynyddion.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

9.1 Roedd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel ag y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Dydd Mawrth 18 Rhagfyr 2007 am 10:45
Dydd Iau 7 Chwefror 2008 am 10:45